WE ARE MACMILLAN. CANCER SUPPORT

'ROEDD FY STUMOG WEDI CHWYDDO GYMAINT FEL FY MOD YN EDRYCH YN FEICHIOG.'

Julia

Mae tua 7,100 o fenywod yn cael diagnosis canser yr ofari yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae canser yr ofari yn fwy cyffredin ymysg menywod dros 50 oed. Os yw dwy neu fwy o'ch perthnasau agos (eich mam, chwaer neu ferch) wedi cael canser yr ofari neu ganser y fron, mae'n bosib eich bod mewn mwy o berygl.

Ewch i weld eich meddyg os oes gennych unrhyw rai o'r symptomau hyn y rhan fwyaf o ddyddiau am dair wythnos neu fwy:

- Teimlo'n chwyddedig (bol wedi chwyddo).
- Teimlo'n llawn yn gyflym neu ddim yn teimlo fel bwyta llawer.
- Poen yn rhan isaf eich bol neu gefn.
- Angen pasio dŵr yn fwy aml neu ar fwy o frys na'r arfer.

Serch hynny, ni fydd gan y rhan fwyaf o fenywod sydd â'r symptomau hyn ganser yr ofari. Ond mae'n bwysig eich bod yn gweld rhywun i wneud yn siŵr.

Peidiwch â mynd i boeni os yw'r symptomau hyn gennych - ewch i weld rhywun.

Y cynharaf y canfyddir canser yr ofari, y mwyaf tebygol y bydd y driniaeth yn llwyddiannus.

Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**

© Cymorth Canser Macmillan, Gorffennaf 2014. Argraffiad 1af. MAC13693_OVARY_WELSH. Bwriedir ei adolygu nesaf yn 2017. Cymorth Canser Macmillan, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Argraffwyd yn defnyddio deunydd cynaliadwy. Ailgylchwch os gwelwch yn dda.

Health & care information you can trust
The Information Standard Certified Member